
# Dadorchuddio Patagonia: Yr ysfa i ddechrau busnes 'Cymraeg' gan Rhys Llewelyn
# Y Cymro, Ebrill 7, 2001

"Wyddoch chi byth nes mentro" – dyna ddywedodd Menter a Busnes rywdro. Dw i wastad wedi dyheu am gael sefydlu busnes – sefydlu ribidires o dafarndai thema Cymraeg yn rhai o'n dinasoedd ni i addysgu'r Cymry hynny, a thramorwyr a sawl Janet Street-Porter, sy'n gwybod dim am y "byd Cymraeg". Neu sefydlu cwmni i drefnu gweithgareddau ar Ddydd Gŵyl Dewi er enghraifft, (pan fyddai'n ŵyl gyhoeddus), er mwyn dod â Chymry Cymraeg a di-Gymraeg at ei gilydd. Breuddwydion gwrach mwy na heb, ond byddai'n braf eu gwireddu.

Ers i mi ddod yma i'r Wladfa, mae'r gliniadur a brynwyd cyn dod yma (trwy roddion hael) wedi fy nghaniatau i greu gwyrthiau. Cychwynnodd popeth gyda chreu cerdyn cyfarch hwyliog ar achlysur pen-blwydd i gyfaill. Sganio llun, ei roi ar bapur lliw a'i ludo ar gerdyn gyda rhyw jôc fach. Un arall wedyn wedi clywed am y greadigaeth, ac eisiau cerdyn cyffelyb. Dyna ddigwyddodd wrth i ddwy gyfres weld golau dydd: Cyfres y Wladfa, sy'n cynnwys cardiau Cymraeg a dwyieithog – Llongyfarchiadau, pen blwydd llawen, diolch, ac ati; a Cyfres Dw i Isio: Gwneud popeth yn Gymraeg! Bellach, mae'r cardiau hyn ar werth yn Amgueddfa'r Gaiman a Neuadd Dewi Sant, Trelew ac mae rhai wedi canfod traed i'r Andes hefyd.








Syniad arall ddaeth i'r fei, oedd llunio cardiau cwrw/te/coffi yn cynnwys lluniau fel buwch yn dawnsio, gyda'r geiriau: "Dw i'n dawnsio'n Gymraeg! Wyt ti? / Yo bailo en Gales! Y vos?" Mae'r cardiau wedi eu lamineiddio, ac maent yn gyfres o 12. Fe'u dosbarthwyd yn y Davarn Las, Gaiman ar noson Ŵyl y Glaniad y llynedd: roeddynt wedi eu sbydu mewn eiliadau ac roedd yna drafod cardiau ymhob twll a chornel - hyd yn oed yn y tai bach o bob man! Cawsant eu dosbarthu mewn llefydd cymdeithasol yn Nhrelew hefyd, ac roeddynt ar werth yn Eisteddfod y Bobl Ifanc ym mis Medi.

Gan fod yma draddodiad cryf o ganu, penderfynais argraffu rhai o'r caneuon sy'n rhan o fywyd y Wladfa megis Sospan Fach, Calon Lân, Hen Wlad Fy Nhadau ayyb, ar bapur A4 safonol. Bellach, mae'r cardiau hyn ar werth am $2. Nid dyma oedd ei diwedd hi, achos lluniwyd cardiau i geisio hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym myd busnes hefyd. Bellach, gall bobl brynu cerdyn lliwgar: "Siaredir Cymraeg yma / Se habla Galés aquí" yn ogystal ag arwydd "Ar Agor / Ar gau" dwyieithog. Fel y gallwch ddychmygu, rydym yn gyfuniad o fwrdd iaith, pobl fusnes a swyddogion marchnata, er mai athro Cymraeg ail-iaith yw'r teitl!




Mae'r cyfrifiadur wedi ei ddefnyddio hefyd i lunio rhaglenni ar gyfer nosweithiau llawen; deunydd hysbysebu a thaflenni o bob math; i lunio gemau iaith ar gyfer y gwersi Cymraeg; llyfrnodau; tystysgrifau; a chardiau aelodaeth ymysg degau o bethau eraill. Y gorchwyl nesaf fydd cwblhau'r wefan fydd yn olrhain datblygiad yr Ysgol Gymraeg. Does dim dwywaith, mae'r cyfrifiadur wedi bod yn adnodd hynod ddefnyddiol, pwysig ac ymarferol i ni yma yn Nyffryn Camwy.

Y fenter ddiweddaraf cyn y Nadolig oedd meddwl am grys "T" ar gyfer yr Ysgol Gymraeg. Penderfynwyd mabwysiadu'r teitl "Ysgol Gymraeg y Wladfa", er mwyn codi proffil y dosbarthiadau ar gyfer y dyfodol. Lluniwyd logo sy'n cynnwys y ddwy faner - Yr Ariannin a Chymru - ac wedyn bu holi a chyfaddawdu am syniadau. Wedi crafu pen, penderfynnodd rhai y byddai map o Chubut yn dderbyniol ar y cefn gyda'r geiriau "Pasiwch am dot o fate yn Gymraeg!", sef rhan o dafodiaith Patagonia. Erbyn hyn, mae dros bedwar ugain wedi ei brynu trwy archebion.

Ar achlysur arall cafodd criw ohonom y syniad o lunio crys "T" fyddai'n apelio at y to iau. Y cwrw gaiff ei yfed yma fwyaf yw'r Quilmes, felly dyma benderfynu mabwysiadu'r geiriau: cilmes@yr.ariannin.ar - ar y tu blaen; gyda'r linell: "¡¡Ti'n go dda 'da'r tango!!" ar y cefn. Yn goron ar y cyfan, mae draig fechan i gynrychioli'r Wladfa. Maent yn boblogaidd gyda phobl ifainc yn ogystal ag ymwelwyr o Gymru. Mae cynlluniau ar y gweill i lunio rhagor.

Rhan o'n dyletswyddau ni yma fel athrawon yw annog a thargedu aelodau'r Ysgol i ysgrifennu yn Adlais, sef papur newydd dosbarthiadau Cymraeg y dyffryn, a gynhwysir bellach yn Y Drafod. Mae'r ymateb ganddynt wedi bod yn anhygoel: o'u targedu does yna byth brinder deunydd. Bellach, sefydlwyd tudalen y bobl ifainc yn

Adlais sy'n rhoi cyfle iddynt leisio eu barn am bynciau'r dydd megis: "Oes isio rhaglen radio Gymraeg i bobl ifainc yn Chubut?"

Ar y funud, dw i'n ceisio sefydlu llyfrgell gerddoriaeth, fidoes a llyfrau yn Neuadd Dewi Sant Trelew fel y bydd pawb yn gallu cael mynediad at ddeunydd Cymraeg. Mae'r llyfrau a'r fideos a dderbyniais yng Nghymru (cyn dod yma) gan ein sefydliadau a'n gweisg Cymraeg yn rhan annatod o'r llyfrgell, a mawr ddiolch iddynt am eu rhoddion. Ond hoffwn ddatgan bod gwir angen deunydd amrywiol yma ar gyfer dysgwyr. Felly, os ydych yn dod yma ar wyliau neu'n nabod rhywun sy'n dod, byddai cyfraniad bach neu fawr yn hynod werthfawrogol tuag at y fenter – llyfrau, cylchgronau neu hyd yn oed raglenni wedi eu tapio. Mawr ddiolch hefyd i Gwmni Sain am ddanfon cryno ddisgiau yma: maent ar fin cael eu dosbarthu fel y gall y Gwladfawyr eu clywed!

Ar rai achlysuron, bûm yn beirniadu adrodd, sgets a dawnsio gwerin mewn eisteddfodau di-ri. Yn ogystal bûm yn hyfforddi plant ac oedolion i adrodd a chyd-adrodd, heb sôn am actio wedyn yn un o sgetsus enwog Gweneira Davies de Quevedo, Trelew. Dro arall, cefais beth wmbreth o hwyl gyda pharti cyd-adrodd o bobl ifainc yn Nhrelew gogyfer ag Eisteddfod y Wladfa: doedd y mwyafrif ohonynt erioed wedi adrodd o'r blaen. Chafon ni ddim ymarfer cyflawn fel criw tan y pnawn hwnnw ar lwyfan y steddfod! Mae'r holl brofiadau hyn, heb-os, wedi bod yn bleser llwyr, ac wedi bod yn gyfleoedd gwych i mi gael dod i nabod y Gwladfawyr yn well.

Bu ymdrechion hefyd i geisio sefydlu rhaglen radio i bobl ifainc ond hyd yma, dydy'r maen heb fynd i'r wal.

Mae'r flwyddyn addysgol newydd yn cychwyn nawr ym mis Mawrth, felly mae'r posteri hybysebu wedi eu dosbarthu, y tynnu lluniau ar gyfer y wasg drosodd, a dw i'n barod i weld y myfyrwyr o blant, pobol ifainc ac oedolion unwaith eto ar ôl gwyliau'r haf.

Ond sgwn i beth fydd y fenter nesaf? Amser a ddengys, ond mae un peth yn sicr, wyddwn i byth nes mentro!